# Ffeil ffeithiau Creigiau a phriddoedd

## Creigiau a phriddoedd

## Beth yw daearegydd?

Mae daearegydd yn astudio'r Ddaear a sut mae wedi'i gwneud. Efallai y bydd yn edrych ar yr arwyneb neu'n ddwfn o dan y ddaear.



*Dyma Lucy Crane. Mae hi'n ddaearegydd. Mae hi'n gweithio i gwmni sy'n bwriadu chwilio am ddeunyddiau i wneud batris ar gyfer ceir trydan.*

Mae rhai daearegwyr yn astudio llosgfynyddoedd. Mae rhai'n astudio daeargrynfeydd. Mae daearegwyr yn gweithio mewn llawer o wahanol ddiwydiannau, fel:

- cloddio a chwarela
- peirianneg
- olew a phetrolewm
- diogelu'r amgylchedd.

**Dysgu Allweddol** a **Sgiliau Gwyddoniaeth**:

- Chwilfrydedd ynghylch y byd o'u cwmpas.
- Arsylwi a chofnodi eu canfyddiadau'n ofalus.

*Fyddech chi'n hoffi defnyddio'r hyn rydych chi'n ei ddysgu am greigiau a phriddoedd pan fyddwch chi'n hŷn? Efallai y byddech chi'n hoffi bod yn ddaearegydd neu'n baleontolegydd? Tybed a oes rhagor o swyddi sy'n defnyddio'r hyn a ddysgir am greigiau a phriddoedd?*

## Beth yw gwyddonydd pridd?

Mae gwyddonydd pridd yn astudio'r pridd.



*Dyma Sahil. Mae o'n wyddonydd pridd. Mae wedi bod yn astudio sut mae gwahanol blanhigion yn helpu i wella'r pridd mewn gwledydd sych.*

Mae hyn yn bwysig mewn llawer o ddiwydiannau, fel:

- ffermio
- diogelu'r amgylchedd
- adeiladu a thirlunio.

**Dysgu Allweddol** a **Sgiliau Gwyddoniaeth**:

- Diddordeb yn y byd naturiol.
- Cyflawni profion syml i ganfod y mathau o bridd a sut i'w defnyddio.

## Beth yw paleontolegydd?

Mae paleontolegydd yn astudio ffosiliau (gan gynnwys dinosoriaid!) i ddysgu am hanes bywyd ar y Ddaear.





*Dyma Xu Xing. Mae o'n baleontolegydd. Mae wedi enwi mwy o ddinosoriaid nag unrhyw baleontolegydd byw arall.*

Mae paleontolegwyr yn gweithio mewn gwahanol leoedd, gan gynnwys:

- amgueddfeydd
- prifysgolion
- yn yr awyr agored yn datgloddio ffosiliau.

**Dysgu Allweddol** a **Sgiliau Gwyddoniaeth**:

- Cymryd gofal wrth ddefnyddio offer i ddod o hyd i ffosiliau a'u datgelu.
- Edrych yn ofalus ar ffosiliau.
- Defnyddio dulliau didoli a grwpio i benderfynu pa ffosil mae'n edrych arno.

ROYAL SOCIETY OF CHEMISTRY